*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **29 Gorffennaf 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael** |
| Swyddog Cyswllt | **Keith Williams (Rheolwr Archwilio)- 01492 576217** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol 2018/19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2), rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gynnal adolygiad bob blwyddyn o ba mor effeithiol yw ei system Rheolaeth Fewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system hon, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

2 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y DU 2013 yn mynnu bod Pennaeth Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio am holl system rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol.

3 Mae'r adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2018/19, ac mae'n cynnwys y datganiad sicrwydd ar sail gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

4 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, ar sail y gwaith archwilio mewnol a gafodd ei gynnal, ynghyd â'r wybodaeth rydym ni'n ei chadw am y sefydliad a'i weithdrefnau, fod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

5 Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod 55 o ddiwrnodau o waith Archwilio Mewnol wedi cael eu cynnal yn ystod 2018/19, sy'n cyd-fynd â'r dyraniad a gynlluniwyd.

.

6 Mae'r adolygiadau archwilio yn darparu lefel o sicrwydd ynghylch pa mor ddigonol yw'r systemau rheolaeth fewnol sy'n bodoli, er bod 28 o

argymhellion wedi cael eu gwneud yn y flwyddyn i fynd i'r afael â rhai gwendidau. Mae proses ddilynol ffurfiol ar gael i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn amserlenni y cytunir arnynt.

7 Nid yw gwaith Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau a fyddai'n amodi'r farn hon, ac nid oes unrhyw faterion pwysig yn berthnasol i'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

8 Mae'r adroddiad hefyd yn darparu sicrwydd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y DU er mwyn galluogi'r Awdurdod i gael sicrwydd o'r farn hon.

**ARGYMHELLION**

9 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod 2018/19; a
(ii) nodi'r asesiad Archwilio Mewnol, sy'n cadarnhau bod gan yr Awdurdod brosesau rheolaeth fewnol, rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol i reoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion.

**CEFNDIR**

**Swyddogaeth Archwilio Mewnol**

10 Dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Tân i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol."

11 Rôl y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu asesiad gwrthrychol i'r rheolwyr ynghylch a yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn. Mae'n rhan allweddol o system rheolaeth fewnol y sefydliad oherwydd mae'n mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw rheolaethau eraill er mwyn fel:

- bod y Pwyllgor Archwilio a'r uwch reolwyr yn ymwybodol i ba raddau y gallan nhw ddibynnu ar yr holl system; a
- bod rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maen nhw'n gyfrifol amdanyn nhw.

12 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod er mwyn sicrhau bod ei amcanion yn cael eu cyflawni. Mae'r system yn cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn sicrhau gwerth am arian o'i weithgareddau.

13 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, rhaid i'r Pennaeth Archwilio ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol bob blwyddyn, i'w defnyddio gan yr Awdurdod ar gyfer ei ddatganiad llywodraethu.

**GWYBODAETH**

**Barn Archwilio Mewnol 2018/19**

14 Rwyf wedi fy modloni fod y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd, ynghyd â'r wybodaeth sydd gennym am y sefydliad a'i weithdrefnau, yn caniatáu i mi ddod i gasgliad rhesymol am ba mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli risgiau, rheolaeth a llywodraethu ATAGC.

15 Yn fy marn i, mae gan yr Awdurdod, am y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2019, brosesau digonol ac effeithiol i reoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion.

16 Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all y sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y peth mwyaf y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol, ar sail y gwaith a gafodd ei wneud y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr heblaw'r rhai a nodwyd.

17 Hefyd, wrth ddod i'n barn, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- canlyniadau pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019
- canlyniadau'r camau gweithredu dilynol a gymerwyd mewn perthynas ag archwiliadau o'r blynyddoedd blaenorol
- a yw'r rheolwyr wedi derbyn unrhyw argymhellion categori Uchel neu Ganolig ai peidio, a beth yw'r risgiau o'r herwydd
- effeithiau unrhyw newidiadau arwyddocaol yn amcanion neu weithgareddau'r Awdurdod
- materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Panel Gweithredol neu'r Pwyllgor Archwilio
- y cyfyngiadau o ran adnoddau ar Archwilio Mewnol sydd wedi amharu ar allu'r Gwasanaeth i ddiwallu holl anghenion archwilio mewnol yr Awdurdod.

18 Gellid defnyddio'r farn archwilio gyffredinol wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Crynodeb o'r Gwaith i Gefnogi Barn Archwiliiad 2018/19**

19 Yn **Atodiad A**, ceir atodlen yn rhoi barn archwilio am ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheolaeth fewnol, ynghyd â chrynodeb o'r

negeseuon allweddol mewn perthynas â'r aseiniadau archwilio a gafodd eu cynnal yn ystod 2018/19.

20 Mae'r atodlen yn rhoi crynodeb o'r barnau archwilio a nifer yr argymhellion a wnaed ar gyfer pob maes a archwiliwyd; Mae hyn yn sail i'r sicrwydd a roddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â pha mor ddigonol ac effeithiol yw fframweithiau'r Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn 2018/19.

21 Pan fo'n berthnasol, mae adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu categoreiddio i roi barn archwilio am yr amgylchedd rheolaeth fewnol ar gyfer y system neu'r sefydliad perthnasol hwnnw. Dyma gategorïau'r barnau archwilio am yr aseiniadau:

- Sicrwydd Uchel
- Sicrwydd Boddhaol
- Sicrwydd Cyfyngedig
- Dim Sicrwydd

I gefnogi'r barnau archwilio, mae'r argymhellion a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi cael eu categoreiddio'n rhai Critigol, Pwysig, Canolig a Bach, a hynny yn unol â'r ffordd y mae'r Awdurdod yn asesu ac yn mesur risg.

22 Cafodd pedwar adroddiad archwilio eu cwblhau yn ystod y flwyddyn. Roeddent yn ymdrin â'r canlynol:

- **Credydwyr (System P2P Proactis)** – Cafodd adolygiad ei gynnal i sicrhau bod gweithdrefnau ar gael i sicrhau bod y ffordd mae'r Gwasanaeth yn archebu gwaith, nwyddau a gwasanaethau, ac yn talu credydwyr, o ran awdurdodi llofnodwyr, datgan buddiannau, derbyn nwyddau, gwirio anfonebau, rheolaethau dyblygu taliadau, taliadau BACS a siec, a chysoniadau'r banc. Cafwyd 9 o argymhellion gan yr archwiliad, ac roedd yr archwiliad yn darparu lefel uchel o sicrwydd.
- **Incwm a Dyledwyr** – Cafodd adolygiad ei gynnal i sicrhau bod gweithdrefnau ar gael i sicrhau bod yr holl incwm sy'n ddyledus i'r Gwasanaeth yn cael ei dderbyn yn briodol, bod y gwaith o gasglu, derbynebu a bancio'r incwm yn y pencadlys yn cael ei reoli'n dda, bod anfonebau mân ddyledwyr yn cael eu codi'n brydlon, bod y camau adfer yn briodol, a bod unrhyw achosion o ddileu yn cael eu rheoli'n dda. Cafwyd 7 o argymhellion gan yr archwiliad, ac roedd yr archwiliad yn darparu lefel uchel o sicrwydd.
- **Cardiau Prynu –** Mae adolygiad o'r modd y mae'r Gwasanaeth yn rheoli gwariant ar gardiau prynu yn darparu lefel o sicrwydd i'r rheolwyr fod y rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol, bod y risgiau posibl yn cael eu rheoli'n dda a bod yr amcanion

corfforaethol yn cael eu cyflawni. Cafwyd 12 o argymhellion gan yr archwiliad, ac roedd yr archwiliad yn darparu lefel foddhaol o sicrwydd.

- **Ymchwiliad Arbennig (Gweithgarwch Defnyddwyr Anawdurdodedig ar y Rhwydwaith Lleol) –** Cafodd ymchwiliad ei gynnal gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Weithgarwch Defnyddwyr Anawdurdodedig ar y Rhwydwaith Technoleg Gwybodaeth. Cynhaliwyd yr ymchwiliad yn dilyn achos o dorri rheolau data ym mis Gorffennaf 2018, a rhoddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y mater.

23 Mae canlyniad pob archwiliad, a'r gwaith o werthuso pa mor ddigonol yw'r amgylchedd rheolaeth fewnol, yn seiliedig ar nifer yr argymhellion a'u sgôr risg. Aseswyd bod pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd.

24 Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a welwyd yn ystod yr adolygiadau archwilio, cafodd 28 o argymhellion eu gwneud. Cafodd cynlluniau gweithredu, yn nodi'r ymateb y cytunwyd arno, eu cyhoeddi gydag adroddiadau'r archwiliadau, a daeth y rhain yn ôl gan reolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â'r camau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Mae'r rheolwyr wedi cytuno i roi holl argymhellion yr archwiliadau ar waith.

25 Er mwyn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol CIPFA ar gyfer y Sector Cyhoeddus 2013, gweithredir proses ddilynol ffurfiol o fewn yr Adran i gadarnhau bod yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau Archwilio Mewnol wedi cael eu gweithredu gan y Rheolwyr o fewn yr amser y cytunwyd arno. Fel arfer, cynhelir adolygiad mewnol chwe mis wedi cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

26 Yn **Atodiad B**, ceir amserlen o'r archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod 2018/19. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac a weithredwyd, o ganlyniad, gan y rheolwyr ymhob maes ac mae hefyd yn datgelu'r newidiadau sydd wedi effeithio ar farn wreiddiol yr archwiliad. Gwneir gwaith dilynol pellach yn y meysydd lle mae nifer sylweddol o argymhellion heb gael eu gweithredu.

27 Yn ystod 2018/19, darparwyd 55 o ddiwrnodau archwilio, yn unol â'r dyraniad a gynlluniwyd yn y cynllun archwilio blynyddol. Mae crynodeb o'r gweithgareddau archwilio ar gael yn **Atodiad C**, ac mae'n dangos y dyraniad a gynlluniwyd o adnoddau archwilio o ran y diwrnodau gwaith gan bobl mewn adrannau a gwasanaethau, ac mae'n cymharu'r gwaith a wnaed mewn gwirionedd yn 2018/19 gyda'r cynllun.

28 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae angen i'r cynllun fod yn hyblyg i fod yn gallu adlewyrchu ac ymateb i risgiau a blaenoriaethau'r Awdurdod wrth i'r rheini newid. Cafodd y cynllun ei adolygu yn ystod y flwyddyn a chafodd ei ddiweddaru fel yr oedd angen; roedd yr ymchwiliad arbennig a'r adolygiad o'r defnydd o gardiau prynu wedi cael eu cynnal yn lle'r archwiliadau a gynlluniwyd ar orsafoedd y system RDS a rhagor o waith ar ddiogeledd seiber.

**Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus**

29 Ar ddechrau'r flwyddyn, mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risgiau i benderfynu ynghylch anghenion archwilio'r Awdurdod, ac mae'n defnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar risgiau wrth gynllunio a chynnal ein haseiniadau archwilio. Mae gwaith Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi cael ei wneud yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y DU 2013.

30 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi datblygu Rhaglen Sichrau Ansawdd a Gwella (QAIP), sy'n cwmpasu pob agwedd ar weithgareddau archwilio mewnol ac sy'n golygu bod modd gwerthuso cydymffurfiaeth â phob agwedd ar Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

31 Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i rym ar 1 Ebrill 2013, ac roeddent yn cyflwyno gofyniad i gynnal asesiad allanol o'r holl wasanaethau archwilio mewnol. Rhaid cynnal yr asesiad hwnnw bob pum mlynedd o leiaf, a hynny gan adolygwr cymwys ac annibynnol o'r tu allan i'r sefydliad. Y Rheolwr Gwasanaeth – Archwilio a Thechnegol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wnaeth gynnal yr asesiad, a hynny ym mis Tachwedd 2016. Mae Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol yn awgrymu graddfa o dair sgôr, sef 'Yn cydymffurfio'n gyffredinol, 'Yn cydymffurfio'n rhannol', a 'Ddim yn cydymffurfio.' Barn gyffredinol yr aseswyr allanol yw bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n gyffredinol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Cod Moeseg ymhob agwedd arwyddocaol, a'i fod yn gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag un o amcanion llesiant hirdymor ATAGC, sef "Hwyluso gwasanaethau tân ac achub o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac yn fwy integredig fel bod modd i weithgareddau ataliol ac ymateb brys barhau i fod ar gael lle a phryd mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael eu darparu fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth ac o fewn cyfyngiadau'r gyllideb. |
| Cyfreithiol | Roedd yr adroddiad hwn yn bodloni gofynion yr Awdurdod a oedd yn deillio o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno i gydymffurfio â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol yn y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ni fyddai'r Aelodau'n gwybod pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol, a beth yw ei allu mewn cysylltiad â'r rheini i gyflawni ei amcanion.<br><br>Wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ni roddid ystyriaeth i unrhyw broblemau neu wendidau arwyddocaol gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. |